



Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd canlynol yn berthnasol i wybodaeth a gaiff ei chasglu ar gyfer derbyn cylchgrawn Advances Wales.

Pan fydd Llywodraeth Cymru'n derbyn yr wybodaeth hon hi fydd yn rheoli'r data.

Mae'r wybodaeth bersonol a gaiff ei chasglu a'i chadw'n cynnwys:

Manylion personol fel enw, swydd, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost.

Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth?

Gan mai Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data mae'n defnyddio'r wybodaeth a gaiff ei derbyn er mwyn anfon copïau o Advances Wales atoch. Caiff eich manylion eu cadw'n gwbl ddiogel.

Gyda phwy rydym yn rhannu eich gwybodaeth?

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich gwybodaeth i unrhyw drydydd parti, ac nid yw ond yn cael ei defnyddio ar gyfer anfon Advances Wales atoch. Caiff y rhestr ei ddileu ar ôl i'r cylchgrawn gael ei bostio.

Am faint fyddwch chi'n cadw eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw eich manylion tra'ch bod yn parhau i dderbyn Advances Wales. Os hoffech i'ch manylion gael eu tynnu oddi ar y rhestr anfonwch e-bost at **innovation@llyw.cymru** a chânt eu dileu o fewn 10 diwrnod gwaith.

Eich hawliau o safbwynt eich gwybodaeth

Mae gennych yr hawl i'r canlynol:

- Mynediad at y data personol yr ydym yn eu prosesu amdanoch;
- Ei gwneud hi'n ofynnol i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny;
- Yr hawl (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu'r wybodaeth;
- Yr hawl i fynnu bod eich data yn cael eu 'dileu';
- Cofnodi cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data;
- Yr hawl i dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: **data.protectionofficer@llyw.cymru**

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow,
Cheshire, SK9 5AF

Rhif Ffôn: 029 2067 8400

Gwefan: **www.ico.org.uk**